

CLECS CFFI



FFAIR AEAF

Teithiodd aelodau CFfl Cymru o bob rhan o Gymru a Swydd Henffordd i Ffair Aeaf Amaethyddol Brenhinol Cymru i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, a gynhaliwyd dros y ddau ddiwrnod.

Yn ystod y Ffair Aeaf, bu siroedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i gipio'r anrhydeddau yng nghystadlaethau Barnu stoc, Prif Gynhyrchydd Wŷn, Biff Ifanc, Trimio Wŷn, addurno boncyff cacen siocled a gwneud torch Nadolig i enwi dim ond rhai.

Braf yw cyhoeddi bod pob un o 12 sir Ffederasiwn Cymru wedi cystadlu yn ystod dau ddiwrnod y Ffair, gyda sylw arbennig i ffederasiynau Ceredigion a Gwent am ddod yn gyd-enillwyr CFfl y Ffair, gyda Sir Benfro yn dod yn drydydd.

Yn dilyn ymlaen, yn yr adran barnu stoc gallai pob sir roi tîm o bedwar aelod at ei gilydd (Dan 16, 18, 21 a 28 oed) ar gyfer pob un o'r tri dosbarth; Wŷn ar y bachyn, gwartheg cigyddion a Wŷn cigyddion. Cafodd Maesyfed a Maldwyn eu canmol fel gyd-enillwyr goruchaf y dosbarthiadau Barnu Stoc, a Ceredigion gafodd y trydydd safle.

Ar y bore Llun, cynhaliodd CFfl Cymru, Dunbia a Sainsbury's brunch ar y cyd i ddathlu 15 mlynedd ers sefydlu'r Fenter Wŷn. Yn ystod y digwyddiad hwn, bu cyflenwyr a thri phartner y cynllun yn ymgysylltu â siaradwyr gwadd a mwynhau ychydig o gawl, wedi'i gwneud â chig oen o gadwyn gyflenwi'r fenter.

Mwynhaodd cyflenwyr, cynrychiolwyr partneriaid a swyddogion y digwyddiad yn fawr, ac edrychwn ymlaen at barhau i adeiladu momentwm ar gyfer dyfodol y cynllun.

Yn ddiweddarach y prynhawn Llun hwnnw, cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol Prif Gynhyrchydd Wŷn CFfl Cymru. Roedd tri dosbarth cychwynnol; bridiau cyfandirol, iseldir a mynydd. Steffan Thomas, Sir Gâr enillodd y dosbarth cyfandirol gyda'i wŷn Beltex. Derbyniodd Sioned Thomas, Sir Benfro, rhoséd goch gyda'i Southdowns yn y dosbarth Iseldir ac enillodd Gethin Davies, Ceredigion, y lle cyntaf gyda'i wŷn Cymreig Tregaron yn nosbarth brid mynydd. Yna aeth yr holl bencampwyr a'r is-bencampwyr yn ôl i'r cylch i gystadlu yn erbyn ei gilydd am deitl Prif Bencampwr y Cynhyrchydd Wŷn, a ddyfarnwyd i Steffan Thomas. Bu Sioned Thomas hefyd yn llwyddiannus wrth ennill gwobrau'r Is-Pencampwr a'r Stocmon Gorau. Ac yn olaf, y cystadleuydd newydd yn y safle uchaf oedd Gethin Davies, Ceredigion.

Yn gynnar ar y bore dydd Mawrth, roedd llond llaw o'n haelodau yn brysyr yn paratoi eu llo ar gyfer ein cystadleuaeth Biff Ifanc. Derbyniodd Angharad Davies, CFfl Ceredigion y teitl o Bencampwr Goruchaf Biff Ifanc CFfl Cymru gyda'i heffer a dyfarnwyd Owen Phillips, CFfl Swydd Henffordd, fel yr Is-Bencampwr Goruchaf gyda'i heffer. Mae'n werth nodi hefyd wnaeth Jordan Chapman, CFfl Sir Gâr, dderbyn teitl Bustach Gorau. Aeth Gwobr y Stocmon Gorau i Jack Bodily, Gwent a'r Cystadleuydd Newydd â'r Safle Gorau oedd Will Edwards, Morgannwg.

Hoffem ddefnyddio'r cyfle hwn i ddiolch i Dunbia am noddi'r beirniadu stoc a'r Cystadlaethau Prif Gynhyrchwyr Wŷn eto eleni. Rydym hefyd yn ddiolchgar i ABP am noddi'r gystadleuaeth Biff Ifanc ac edrychwn ymlaen at barhau i adeiladu a datblygu'r rhain yn y dyfodol.

Yn ddiweddarach y dydd Mawrth hwnnw, cynhaliodd CFfl Cymru gystadleuaeth mewn Partneriaeth â Menter a Busnes, a derbyniodd yr enillydd ysgoloriaeth o £1,000 a chefnogaeth gan y prosiect Cywain! Roedd yn rhaid i'r aelodau a oedd yn cystadlu creu cynllun busnes ar gyfer eu busnes newydd (neu bresennol) o fewn y diwydiant bwyd a diod. Roedd Cynlluniau Busnes a gyflwynwyd yn cynnwys disgrifiad o'r cynnyrch, eu gwahaniaethwyd, strategaethau marchnata a sut maent yn cynllunio tyfu'r busnes yn y dyfodol. Roedd y cynllun busnes hefyd yn nodi sut y byddai'r ymgaisydd llwyddiannus yn dyrannu'r wobriariannol o £1,000 a gyflwynwyd gan Menter a Busnes er mwyn datblygu eu busnes i fod yn un hyfwr i'r dyfodol. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, yn seremoni wobrwyo'r CFfl, cyhoeddwyd mai Huw Rowlands o Forgannwg fyddai'r aelod sy'n derbyn yr ysgoloriaeth hon a dymunwn bob lwc iddo yn natblygiad ei fusnes i'r dyfodol.

I weld y canlyniadau llawn a'r galeri ar gyfer Ffair Aeaf Brenhinol Cymru 2022, ewch i'n gwefan!

RHYNGWLADOL

TEITHIO'R BYD GYDA CFFI CYMRU

Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhaglenni rhyngwladol ar gyfer 2022-23 ar ddydd Sul y 4ydd o Ragfyr. Gyda'r nifer uchaf erioed o geisiadau, 79! Cafodd y saith panel ddiwrnod prysur yn penderfynu pwy fyddai'n mynd ar y teithiau anhygoel hyn!



Teithio'r UDA
Bydd tri ar ddeg Aelod yn cychwyn ar antur i Dde-orllewin America lle byddant yn profi rhai o barciau cenedlaethol mwyaf poblogaidd y wlad. Gallwn bron â gwarantu y bydd yr aelodau lwcus yn cwmpo mewn cariad â thirweddau anialwch Joshua Tree ac na fyddant byth eisiau gadael ysblander y Grand Canyon. Gyda digon o deithiau cerdded heriol ond gwerth chweil trwy bedwar prif barc cenedlaethol a rhai o'r llefydd sylu ar y sêr gorau'n y byd, mae hon yn daith na ddylid ei anghofio!

Ieuencid Gwledig Ewrop: Seminar yr Hydref - Georgia

Disgrifir y digwyddiad hwn a drefnwyd gan RYE orau fel taith gyfnewid ieuencid aml-ddiwyllynnol. Mae'r seminarau yn wythnos o hyd ac yn cael eu cynnal gan aelod-sefydliad gwahanol bob blwyddyn. Er bod thema wahanol i'r seminarau bob blwyddyn, eu ffocws canolog yw dod â phobl ifanc at ei gilydd i drafod a rhannu gwybodaeth am bynciau sy'n effeithio ar ieuencid gwledig, megis; datblygu gwledig, cyfranogiad ieuencid, deialog rhyngddiwyllynnol a hawliau dynol.



Ieuencid Gwledig Ewrop: Rali Ewropeaidd - Awstria

Mae gan y Rali Ewropeaidd hanes hir ac mae'n rhan sylfaenol o weithgareddau RYE. Cynhaliwyd y Rali gyntaf yn 1960 yn Zuidlaren, yr Iseldiroedd. Mae'r rali wedi dod yn ddigwyddiad o bwys ar galendrau'r holl sefydliadau sy'n aelodau o bob rhan o Ewrop. Mae aelodau wedi nodi bod y Rali Ewropeaidd yn brofiad unigryw na ddylid byth ei anghofio. Mae dysgu yn ystod y rali Ewropeaidd yn cael ei wneud mewn ffordd anffurfiol iawn. Mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hwyliog sy'n aml yn canolbwyntio ar gemau a sesiynau anstrwythuredig ond mae'r effaith ar yr aelodau yn anghredadwy.

Ieuencid Gwledig Ewrop: Seminar Astudio - Budapest

Un o nodau Ieuencid Gwledig Ewrop yw uno sefydliadau ieuencid gwledig ledled Ewrop i hyrwyddo datblygiad gwledig, ffordd o fyw cynaliadwy a chyfranogiad ieuencid. Maent hefyd yn codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol ac amrywiaeth rhyngddiwyllynnol. Mae Budapest ar fin cynnal seminar astudio 2023 ar y thema Parch a Gwydnwch - Cryfhau Cymunedau yn Wyneb Adfyd.

Taith Dirgel

Cyfle i aelodau ddarganfod lle bydd CFFI yn cymryd nhw nesaf, ond dim ond wrth iddynt camu ar yr awyren. Bydd yr 10 aelod anturus yn crwydro dinas yn Ewrop am 5 diwrnod, gan fwynhau golygfeydd a synau eu cyrchfan. Ble byddwch chi'n gorffen ian? Dim ond un ffordd sydd i ddarganfod... pasbortau yn barod!

Agri EYE

Trwy gefnogaeth Ymddiriedolaeth Elusennol NFU Mutual mae CFFI Cymru yn cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn rhaglen a ariennir yn llawn. Wedi'i chynllunio i ysbrydoli ac ysgogi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr Cymru, bydd y rhaglen yn cynnwys ymweliadau addysgol a gweithdai. Bydd y rhaglen, a gynhelir dros dri phenwythnos trwy gydol y flwyddyn, yn rhoi cipolwg ar gadwyni cyflenwi cyfan gan gynnwys ymweliadau a chyfarfodydd â chynhyrchwyr, proseswyr, gweithgynhyrchwyr a dosbarthwyr.



Interrailio Ewropeaidd

Bydd y daith grŵp hon yn dod ag aelodau o bob cornel o Gymru ynghyd i deithio o amgylch Ewrop ar y trên am bythefnos. Fel rhan o'r tîm cewch gyfle i ddylunio'r daith er mwyn sicrhau eich bod yn cael gweld cymaint o atyniadau Ewropeaidd â phosibl.

Ynys Manaw

Bydd aelodau'n teithio i Ynys Manaw ar gyfer antur 4 diwrnod, gan aros mewn B a B lleol, a fwynhau golygfeydd yr ynys. Bydd bydd e'n cynnwys y cyfle i gwrdd ag aelodau CFFI Ynys Manaw gyda theithiau wedi eu trefnu i ffermydd ac atyniadau lleol gan gynnwys diwrnod allan yn y Sioe Frenhinol Manaweg. Bydd adloniant gyda'r nos yn cynnwys digwyddiadau cymdeithasol gyda chlybiau CFFI lleol.

Ysgoloriaeth Goffa Elwyn Jones

Mae'n bleser gan yr is-bwyllgor rhyngwladol gydweithio unwaith eto gyda phwyllgor Ysgoloriaeth Goffa Elwyn Jones i gynnal y cyfle i aelod o CFFI Cymru ymgymryd â thait amaethyddol addysgiadol oes i wlad o'u dewis. Ffocws yr ysgoloriaeth yw dysgu mwy am y diwydiant amaethyddol byd-eang a sut y gellir rhoi syniadau arloesol ar waith i systemau ffermio yng Nghymru.

Ynysydd Orcni

Bydd y daith grŵp hon yn dod ag aelodau o bob cornel o Gymru ynghyd i deithio o amgylch Ewrop ar y trên am bythefnos. Fel rhan o'r tîm cewch gyfle i ddylunio'r daith er mwyn sicrhau eich bod yn cael gweld cymaint o atyniadau Ewropeaidd â phosibl.



Adolygiad 2021-22

Roedd Calendr Rhyngwladol 2021-2022 yn orlawn, gydag amrywiaeth eang o deithiau ar gael, o interrailio a hwylio i saffaris a Ralis, mae rhywbeth i bawb yn ein rhaglen ryngwladol!

Interrailio Ewropeaidd

Aeth naw aelod o'n Sefydliad ar daith Interrailio o amgylch Ewrop am bythefnos, gan deithio ar drên o ddinas i ddinas. Mae Sioned Davies, CFFI Ceredigion, wedi dweud;

"Gwelsom lawer o dirnodau, blasu gwahanol fwydydd, a mwynhau'r diwylliant. Roedd yn daith fythgofiadwy, ac mae'r criw yn annog aelodau'r mudiad i ymgeisio am y cyfleoedd rhyngwladol y mae'r mudiad yn eu cynnig."

Ohio & Colorado

Aeth tri aelod i'r UDA, gan gynnwys Alaw Rees, CFFI Ceredigion, a Martha Morse, CFFI Ceredigion, lle buont yn aros gyda gwahanol deuluoedd cynnal ar draws Ohio, gyda pob un yn darparu profiadau hollol wahanol. Dyma beth dywedodd Alaw mewn adolygiad o'r daith i Ohio;

"Dysgaiss lawer am ddiwylliant, bwyd a hanes America a Venezuela, a byddaf am byth yn coleddu'r cyfeillgarwch a'r atgofion a wnes i."

Yn y cyfamser, mae Sioned Davies, CFFI Brycheiniog, newydd offren ei thaith dri mis i Colorado. Dywedodd wrth CFFI Cymru;

"Rwyf wedi mwynhau fy mhrofiad yn fawr ac ni allaf gredu bod y daith wedi dod i ben!"

Her Hwyllo

Cychwynnodd y ffordaith 5 diwrnod ym Marina Penarth, Caerdydd ac ymgymerodd y 6 aelod â'r holl dasgau o goginio a glanhau i hwylio a mordwyo mewn paru. Roedd yn brofiad adeiladu cymeriad meddai Mari, lle roedd disgwyl i chi weithio fel tîm a dilyn cyfarwyddiadau'r gwibiwr a'r tîm hwylio proffesiynol. "Roedd yn ddechrau gwych i bobl ifanc sy'n dechrau ar eu siwrnau teithio".

Taith Saffari, De Africa

Yr haf hwn, cychwynnodd 20 o'n haelodau ar saffari 'unwaith mewn oes' yn Ne Affrica. Dringodd yr aelodau fynyddoedd, bwyta bwyd lleol, mynd ar daith hofrennydd a deffro i sebras! Dywedodd Elin Lewis, CFFI Maldwyn, wrth CFFI Cymru;

"Dydwi i erioed wedi cael 12 diwrnod mor prysur, ond erioed o'r blaen mae cyfres o 12 diwrnod wedi bod mor fythgofiadwy! De Affrica, Cape Town, Parc Cenedlaethol Kruger, Rhaeadr Victoria, Zimbabwe, Zambia, Rhaeadr Victoria, Chobe, Botswana – dim ond rhai o'r golygfeydd roeddwn i'n ddigon ffodus i'w gweld ar 12 diwrnod o deithio yn Ne Affrica gyda CFFI Cymru."

Mae Rhaglen Ryngwladol CFFI Cymru yn cynnig profiadau bythgofiadwy i aelodau deithio'r byd. Gallwch deithio fel unigolyn, fel pâr neu hyd yn oed fel grŵp! Mae'n gyfle gwych i ddysgu am ddiwyllïannau, archwilio profiadau newydd, magu hyder a gwneud ffrindiau am oes!


I ddarllen y blog rhyngwladol llawn, ewch i'n gwefan!

Dyddiadau i'ch Dyddiadur

- 18.12.22 Cyfarfod Is-bwyllgor y Cyngor a Chystadlaethau
- 05.01.23 Taith Winter Wonderland
- 14.01.23 Cynhadledd Agri 23
- 15.01.23 Gweithdai Agri 23
- 21.01.23 Cyngor ac Is-bwyllgorau
- 04.03.23 Gwyl Adloniant
- 26.03.23 Siarad Cyhoeddus
- 15.04.23 Diwrnod Maes

Galeri yr Eisteddfod

I weld mwy o luniau o'n haelodau yn perfformio ar y llwyfan, ewch i'r oriel ar ein gwefan!



EISTEDDFOD

Mae Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn sefydliad a arweinir gan aelodau, gan ddarparu rhaglen eang ac amrywiol sy'n rhan annatod o galendr ein cymunedau gwledig a datblygu ieuencid gwledig ac mae ein Eisteddfod yn chwarae rhan bwysig yn hyn.

Cynhaliwyd Eisteddfod blynyddol Genedlaethol CFFl Cymru yn Ysgol Bro Gwaun, Abergwaun, ar ddydd Sadwrn 19eg o Dachwedd, dan ofal Ffederasiwn Sir Benfro. Daeth dros 600 o aelodau o bob rhan o Gymru i gymryd rhan yn y digwyddiad.

Bu'r aelodau'n cystadlu mewn lluo o gystadlaethau gan gynnwys canu, adrodd, cystadlaethau adloniant ysgafn a nifer o gystadlaethau gwaith cartref mewn llenyddiaeth, celf a chrefft a ffotograffiaeth. Yn dilyn diwrnod llawn o gystadlaethau, Ceredigion oedd yn fuddugol yn y cyfan, gan fynd adre â thlws Mansel Charles, gyda 45 o bwyntiau. Yn ail roedd Eryri gyda 43 o bwyntiau a dyfarnwyd y trydydd safle i Sir Gaerfyrddin gyda 39 o bwyntiau.

Aeth y Gadair i Eryri gyda Lisa Angharad Evans o CFFl Godre'r Eifl, yn ennill gyda'i cherdd ar y testun Llwybrau. *'Bardd sy'n gwybod gwerth canolbwyntio ar un lleoliad ac un pwnc yn hytrach na cheisio cwmpasu tipyn o bopeth a tasgu i bob cyfeiriad,'* yn ôl y beirniad, Ceri Wyn Jones. Dyluniwyd a chrewyd y Gadair gan Tomos Lewis, aelod o CFFl Sir Benfro a'i noddi gan Chwarel ac Olew Trefigin.

Mared Fflur Jones, CFFl Dinas Mawddwy, Meirionnydd oedd enillydd y Goron, a gynlluniwyd ac a grëwyd gan Eifion Thomas, Eifion Thomas Blacksmith. Darn o ryddieth ar y testun Llanw a Thrai oedd gofyniad cystadleuaeth y Goron eleni. Canmolwyd ei gwaith gan y beirniad Cathryn Gwynn, a chipiodd Mared y Goron *'am waith a ymatebodd i'r testun gydag amrywiaeth gwreiddiol a sglein.'* Noddwyd y goron gan MDS Distribution Ltd.

Mae'r ddwy'n cyfri'r fraint hon o ennill prif wobrau'r Eisteddfod fel eu llwyddiant mwyaf a'u huchafbwynt gyda'r mudiad. Llongyfarchiadau i'r ddwy ddaeth i'r brig!

Aeth y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y corau i CFFl Pen-y-bont o Sir Gaerfyrddin a enillodd Gwpan Dyffryn Tywi. Enillodd Dyfan Parry Jones o Faldwyn gwpan Ardudwy am yr unawdydd gorau ac enillodd Teleri Haf Thomas, Brycheiniog Cwpan Eirlys Myfanwy Davies a'i theulu am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Sioe Gerdd. Aeth Cwpan Her Meter Iaith Sir Benfro ar gyfer y Parti Deusain buddugol i CFFl Penybont, Sir Gar.

Enwyd Erin Dwyfor Roberts fel yr unigolyn gorau yn yr adran llefaru ac enillodd Gwpan CFFl Cymru. Llywela Edwards, Clwyd, enillodd gystadleuaeth y gân gyfoes a dyfarnwyd Cwpan Meinir Richards iddi am ei llwyddiant. Cafodd Cwpan Joy Cornock ei dyfarnu am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Eisteddfod i Beca Dwyrdd, Eryri am ei pherfformiad yn yr unawd llefaru 16 neu iau.


Dyfarnwyd Tlws Undeb Amaethwyr Cymru Dinbych i'r Ffederasiwn buddugol yn yr adran Gwaith Cartref i Geredigion a tharian Elonwy Phillips am ennill y cystadlaethau llwyfan i Ffederasiwn Eryri. Roedd CFFl Cymru yn falch o weld pob un o'r 12 ffederasiwn yn cystadlu yn yr Eisteddfod eleni, 11 ohonynt yn cystadlu mewn cystadleuaeth llwyfan, a chafodd gyfle felly i berfformio o flaen torf a'u darlledu ar sianel deledu S4C.

Cafodd Shân Griffiths ei henwi'n Llywydd yr Eisteddfod, fel cyn-aelod o'r Sir gwesteio, CFFl Sir Benfro a chefnogwr i'r mudiad, oedd yn freintiedig i fod yno ar y diwrnod. Dywedodd yn ei hanerchiad i'r dorf, *'Yn anffodus, allwch chi ddim fod yn Ffermwr Ifanc am gyfnod hir, ond gallwch fod yn ffrind i'r ffermwyr ifanc am byth, ac mae hynny'n golygu'r byd.'* Dywedodd Cadeirydd yr Eisteddfod, Delun Evans;

"Daeth y diwrnod mawr, ac roedd hi'n braf gweld popeth yn dod at ei gilydd ar ôl blwyddyn hir o drefnu. Aeth y diwrnod yn llyfn iawn a'r peth gorau i mi oedd gweld cymaint o aelodau, teuluoedd a chyfeillion y sefydliad yn dod at ei gilydd i gael gwledd o adloniant o safon uchel iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at y diwrnod mewn unrhyw ffordd, a diolch am y fraint o fod yn Gadeirydd yr Eisteddfod eleni. Pob lwc i Gwen ac Ynys Môn wrth iddynt fynd ati i drefnu Eisteddfod CFFl Cymru 2023 yn Ynys Môn!"

Hoffem ddiolch i bob un o'n noddwyr, stiwardiaid, barnwyr a swyddogion am eu gwaith caled a'u cefnogaeth wrth redeg digwyddiad llwyddiannus arall. Diolch i Ffederasiwn Sir Benfro am gynnal yr Eisteddfod eleni ac am eu brwdfrydedd yn y misoedd cyn y digwyddiad. Rydym yn edrych ymlaen i aelodau CFFl Cymru deithio i fyny i Ogledd Cymru'r flwyddyn nesaf gydag Ynys Môn yn gwesteio.





Aelodau CFFl Cymru yn Meistrolï'r Moch

Cyhoeddwyd mai chwe aelod o CFFl Cymru oedd yr enillwyr ar gystadleuaeth Menter Moch yn gynharach eleni. Dros y misoedd diwethaf maen nhw wedi bod yn magu moch fel rhan o fenter gan Menter Moch Cymru a CFFl Cymru.

Mewn ymgais i annog y genhedlaeth nesaf o geidwaid moch ac i gael ffermwyr i feddwl am foch fel opsiwn arallgyfeirio ymarferol, dyfarnwyd pum mochyn bach yr un i chwe aelod o CFFl Cymru fel carreg gamu i mewn i'r diwydiant moch. Yr aelodau hyn oedd: Rebecca o CFFl Abergwaun, Sir Benfro, Carys o CFFl Llangadog, Sir Gar, Rhys a Jack o CFFl Gŵyr, Morgannwg, Frances o CFFl Pontsenni, Brycheiniog, a Leah & Alis o CFFl Nantglyn, Clwyd.

Roedd pob un enillydd yn wynebu heriau magu eu moch eu hunain wrth iddynt baratoi ar gyfer Ffair Aeaf Frenhinol Cymru. Dyma ychydig eiriau gan Carys wrth iddi gael ei dewis i dderbyn y moch bach;

"Gwelais y cyfle i fagu nifer fach o foch, o'r mochyn diddwy'n i'r pesgi, fel cyfle dysgu mewn sector arall a fydd yn ehangu fy ymwybodaeth sylfaenol cyn mentro i'r sector ar raddfa fwy."

Dywedodd aelod llwyddiannus arall, Frances o Frycheiniog wrth CFFl Cymru; "O oedran ifanc, rwyf wedi bod yn ymwneud â'n fferm biff a defaid deuluol sydd wedi'i gosod yng nghanol y Bannau Brycheiniog. Rwy'n falch iawn o gael fy newis ar gyfer Cystadleuaeth Pesgi Moch Menter Moch Cymru a CFFl Cymru ac mae wedi bod yn cyfle gwych i geisio cefnogaeth a mentora i adeiladu ar fy ngwybodaeth sylfaenol bresennol am fagu moch ac i ddatblygu fy sgiliau marchnata."



"Mae'r gystadleuaeth wedi rhoi'r hyder a'r cyfle i mi brofi addasrwydd menter foch ar ein fferm deuluol tra'n dangos manteision ffynhonnell incwm arall."



Ar ôl ychydig o ddyddiau prysur yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, Beca a dewisodd Beirniaid Ela a Daniel i fod yn Bencampwr y gystadleuaeth Menter Moch. Dyma beth ddywedodd Rebecca wrth CFFl Cymru yn yr wythnosau cyn y gystadleuaeth;

"Gan fy mod yn awyddus i arallgyfeirio ar y fferm deuluol, ond yn ansicr pa fath o amrywiaethu i'w wneud, teimlais fod cystadleuaeth pesgi moch Menter Moch a'r CFFl yn swnio fel ffordd wych o sefydlu menter newydd ar y fferm tra'n cael digon o gefnogaeth a hyfforddiant. Penderfynais addasu sied a ddefnyddir fel arfer i fagu lloï i fagu'r moch ar system dan do. Rwyf wedi mwynhau bod yn rhan o'r gystadleuaeth yn fawr iawn ac mae wedi gwneud i mi ystyried dilyn y fenter moch ar y fferm yn barhaol. Mae'r holl hyfforddiant a sesiynau gyda phobl amrywiol o fewn y diwydiant wedi bod yn amhrisiadwy."

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Menter Moch Cymru am eu partneriaeth yn rhedeg y gystadleuaeth hon ac am roi'r cyfle unigryw hwn i'n haelodau.

I ddysgu mwy am sut y bu i'r aelodau gymryd rhan a pharatoi ar gyfer cystadleuaeth Menter Moch yn y Ffair Aeaf, ewch i'n gwefan.

Menter Moch Cymru

Developing the pig sector in Wales
Datblygu'r sector moch yng Nghymru

Winter Wonderland

Bydd Fforwm Ieuenctid CFFl Cymru yn mynd i sglerfrio iâ yng Winter Wonderland, Caerdydd ar y 5ed o Ionawr, am 2.45pm.

Nid oes angen i chi fod yn aelod o'r fforwm i ddod ar y daith ond bydd angen i chi brynu tocyn yn ein Siop ar wefan CFFl Cymru erbyn yr 16eg o Ragfyr i sicrhau eich lle.



Her ATV

Gan weithio mewn partneriaeth â Quad Bikes Wales, mae Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Cymru wedi rhedeg yr Her ATV am y drydedd flwyddyn, gyda'r enillydd yn derbyn beic cwad Honda newydd am flwyddyn trwy garedigrwydd Quad Bikes Wales.

Mae CFFl Cymru hefyd yn falch o fod yn gweithio fel partner o fewn partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru. Nod y bartneriaeth yw codi ymwybyddiaeth o heriau lechyd a Diogelwch, goblygiadau a sut i weithio'n ddiogel.

Gan weithio gyda'r barnwr Mr Sam Marvin, heriwyd yr aelodau i ymgymryd â her ATV, yn ogystal â chwblhau holiadur diogelwch.

Gyda'r wobwr fawreddog o Feic Cwadr Honda am flwyddyn i'w hennill, ynghyd â helmed ddiogelwch i'r enillydd a'r rhai a ddaeth yn ail, bu aelodau o bob rhan o Gymru yn cystadlu yn yr her, gyda Sam Bowen, aelod o Radnor Valley, Maesfedydd, yn ennill y wobwr fawreddog. Nodwyd Lloyd Hammond, CFFl Hawy a William Jenkins, CFFl Lledrod fel rhai teilwng yn ail.

Wrth siarad am y gystadleuaeth a'i lwyddiant, nododd Sam Bowen:

"Am gyfle gwych i rywun ennill cwadr newydd sbon. Wnes i erioed feddwl am eiliad y byddwn i wedi ei hennill. Gwobr anhygoel a roddwyd yn garedig gan Quad Bikes Wales. Pwynt allweddol yr her hon oedd diogelwch ac fe dylid gwrthio hyn mwy i ffermwyr/gweithwyr gan fod pawb yn anghofio'r pethau sylfaenol o bryd i bryd ac mae gwneud y cystadlaethau hyn yn adnewyddu eich cof. Roedd yn wych cystadlu ac roedd yn hynod o drefnus, a dylai mwy o bobl gystadlu. Beth sydd gennych i'w golli? (Maen nhw hyd yn oed rhoi tocyn am ddim i chi i'r ffair aeaf!) Diolch yn fawr iawn i bawb a drefnodd y gystadleuaeth hon a gobeithio y bydd gennych fwy o geisiadau y flwyddyn nesaf."

Mae CFFl Cymru yn estyn ei ddiolch i Quad Bikes Wales am eu cefnogaeth barhaus i'r gystadleuaeth hon.



QUAD BIKES WALES

SALES | SERVICE | PARTS | ACCESSORIES

Galeri
I weld mwy o luniau o'n haelodau ar eu teithiau, ewch i'r oriel ar ein gwefan!



Mae CFFl Cymru yn cynnal eu Cynhadledd Materion Gwledig blyneddol ar y 14eg o Ionawr 2023, diolch i gefnogaeth hael CCF.

Cynhelir y digwyddiad ym Mhlas Isaf, Corwen rhwng 10am-5pm, ac mae'n agored i aelodau a ffrindiau CFFl Cymru.

Thema'r gynhadledd yw 'Llwybrau Ffermio' ac rydym yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i ddod draw ac ymuno â CFFl Cymru i glywed gan gyfoeth o siaradwyr ysbrydoledig.

Ymhlith y siaradwyr ar gyfer cynhadledd 2023 mae;

- **Rebecca Wilson** - Mae Rebecca yn ffermwr pumed cenhedlaeth ar y fferm deuluol. Astudiodd am radd israddedig yn y Gwyddorau Dynol, Cymdeithasol a Gwleidyddol ym Mhrifysgol Caergrawnt ac am Radd Meistr mewn Rheoli Ystadau Gwledig yn y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol.
- **Llyr 'Derwydd' Jones** – Fferm brysur, flaengar ac ecogyfeillgar yw Derwydd sy'n cael ei rhedeg gan Llyr a'i wraig Emma, milfeddyg, a'u 3 phlentyn ifanc; Dwywnwen, William a Gruff
- **Nigel Owens, MBE** - Cyn-ddyfarnwr Rygbi Undeb Rhyngwladol Cymru a Llywydd FfCCFFl
- **Rhydian Glyn** - Ffermwr Cig Eidion a Defaid o Fachynlleth sydd wedi ennill Gwobr Ffermio Prydain.

Bydd teithiau fferm hefyd ar Stad y Rhug.

Wrth siarad cyn y gynhadledd, nododd Angharad Thomas, is-gadeirydd y pwyllgor materion gwledig;
"Mae'r gynhadledd yn addo i fod yn un gyffroes iawn gyda siaradwyr profiadol dros ben yn ymuno â ni, a rhai sydd yn gyfarwydd iawn i bawb. Edrychwn ymlaen at ddysgu fwy ynghlyn â'i llwybrau nhw i fewn i amaeth a beth yw ei cynlluniau nhw am y dyfodol. Mae'n addo i fod yn gynhadledd a hanner, gwnewch yn siwr eich bod yn archebu eich lle yn gynnar."

MATERION GWLEDIG

Ffermwyr Ifanc yn Mentro i'r Gogledd

Ar y 14eg o Hydref 2022, aeth tri deg pump o aelodau CFFl Cymru i Cumbria ar y Daith Astudio Materion Gwledig gyntaf ers 2019. Aeth aelodau o Ynys Môn yr holl ffordd lawr i Forgannwg ar y daith i'r gogledd. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Gwledig, Dewi Davies o CFFl Ceredigion, yn bresennol ar y daith a dywedodd wrth CFFl Cymru.
"Roedd y daith yn gyfle gwych i amrywiaeth o aelodau ledled Cymru ddod at ei gilydd i gymryd syniadau ac ysbrydoliaeth o ystod o fusnesau gwledig arloesol a blaengar."

Ar y ffordd i fyny i Cumbria cawsom nhw eu hymweliad cyntaf ym Melin Fwydo HJ Lea Oaks, Nantwich. HJ Lea Oaks yw un o'r cynhyrchwyr porthiant anifeiliaid hynaf ym Mhrydain gyda hanes yn dyddio'n ôl i Swettenham ym 1675. Garifoedd yn ddiweddarach maent yn dal i wneud yr hyn a wnânt orau, ac mae'n dal i gael ei redeg yn annibynnol gan eu 15fed cenhedlaeth! Gwahanodd y criw a chael taith ddiddorol iawn o amgylch y felin tra eisteddodd y grwpiau eraill mewn cyflwyniad diddorol iawn yn rhoi hanes y busnes.
Roedden ni wedyn yn ôl ar y ffordd ac ar y ffordd i ben ein taith olaf, Cumbria. Y noson honno daeth yr aelodau i adnabod ei gilydd mewn noson gymdeithasol yng Ngharlisle.
Ar fore dydd Sadwrn aethon nhw i'u hymweliad cyntaf y dydd, sef Arwerthiant Tarw Limousin Pedigri yn Borderway Mart, Carlisle. Cafodd yr aelodau olwg o gwmpas y sioe ardderchog o stoc a chawsant amser i wyllo rhai o'r teirw yn gwerthu. Daeth yr ymweliad i ben gyda brecwast llawn i baratoi pawb ar gyfer y diwrnod.



Yn ddiweddarach y bore hwnnw aethon nhw i Fferm Thrimby Grange lle'r oedd Matty a Dani Blair yn eu croesawu i weld sut maent wedi datblygu ers cymryd y ffermydd fel tenantiaid. Roedd nifer o'r aelodau'n awyddus i wybod sut y bu iddynt sicrhau'r denantiaeth ac yn gwella'r daliadau yn rhad ac effeithiol i wneud i'r busnes redeg mor effeithlon â phosibl. Roedd ein haelodau'n cysylltu'n dda â'r cwpl ac yn ymwneud â llawer o'r rhwystrau y bu'n rhaid iddynt eu goresgyn.
Ar ôl yr ymweliad diddorol â Thrimby Grange, roedd hi'n Ddeheuol i'r aelodau anelu am eu ymweliad olaf y Dydd â'r Teulu Allan yn Beck House, Killington. Mae Neil a Linda a'u plant yn ffermio ochr yn ochr â rhieni Neil. Cadwant 1200 o ddefaid; 450 mulod a 700 o famogiaid Swale yn mynd i Hwrdd Leicester Wyneb Glas a 120 o Hoggets Texel croes cyntaf i Gig Oen. Maent hefyd yn lloia tua 80 o wartheg sugno ac yn magu tua 40 o loi godro bob blwyddyn.
Yn ddiweddarach y noson honno gwahoddodd CFFl Skelton i'w Dawns Sioe West Moorland flynyddol lle cafodd aelodau gyfle i gymdeithasu â chymheiriaid yn Cumbria.

Yn gynnar y bore Sul, roedd hi'n amser dechrau'r cyntaf o ymweliadau'r dydd, roedd hyn yn Ainstable Hall lle bu Brian Hall yn ei tywys o amgylch ei sioe aruthrol o Heffrod a Teirw stoc ifanc a'i ddefaid Beltex. Mae Brian yn stocmon brwd iawn, ac roedd hynny'n dangos ansawdd y stoc oedd i'w weld yn ei gartref.



Aethon nhw i'r de wedyn am ginio dydd Sul yng ngwesty Crooklands cyn eu hymweliad diwethaf â'r Teulu Morris-Eyton yn Beckside, Millom lle maent yn godro 425 o Holstein pedigri gyda 430 o benaethiaid stoc ifanc. Maent ar gyfartaledd yn 12,000 litr a 962 cilogram o solidau llaeth, maent wedi tyfu'n aruthrol yn y 3 blynedd diwethaf ac yn dal i gynllunio i dyfu eu busnes yn fwy yn y 12 mis nesaf. Roedd hwn yn ymweliad diddorol ac addysgiadol iawn, a ddaeth â'n teithiau Gogleddol i ben yn berffaith.

Mewn adolygiad o'r daith, dywedodd Angharad Thomas, ein Is-Gadeirydd Materion Gwledig;
"Roedd gweld yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant porthiant o ran cyflenwad a galw a sut y cynhyrchwyd y porthiant yn un o fy uchafbwyntiau personol o'r daith. Roedd yr amrywiaeth o ffermydd Cumbria y bu i ni ymweld â nhw hefyd yn ddiddorol a chlywed sut maen nhw'n paratoi ar gyfer y dyfodol."

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl westeion am ganiatáu yn garedig i ni ymweld. Ond hefyd diolch enfawr i NFU Cymru a FFWW am nodd i'r daith. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth barhaus.

Ar ôl Taith lwyddiannus arall. Mae aelodau wedi gofyn a fyddai rhagor o ymweliadau yn ystod y flwyddyn, felly rydym wedi siarad ag AW Jenkins Penrith i drefnu ymweliad erbyn diwedd gwanwyn 2023 i weld eu buches o wartheg Limousin Pedigri sydd wedi ennill gwobrau. Bydd un neu ddau o ymweliadau eraill yn ystod y daith hon a fydd yn cael eu cadarnhau maes o law.

Rydym eisoes yn cynllunio'r Daith Astudio ar gyfer 2023, rydym yn gobeithio ymweld ag Ynys Manaw ym mis Hydref 23. Cadwch lygad ar y wybodaeth sydd i'w ddod yn ymwneud â'r daith wrth i leoedd lenwi'n gyflym!

Ffermwr defaid Harper Adams o Gymru yn ennill Gwobr Goffa Samuel Wharry y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol



Lucy Griffiths

Daw ei gwobr ar ffurf bwrsari teithio hael o £2,750 i gefnogi taith astudio i archwilio'r defnydd o wyddoniaeth wrth gynhyrchu defaid.

Mae'r bwrsariaethau'n bosibl trwy gyllid gan yr NSA ochr yn ochr â Chwmni Masnachwyr Staple Lloegr (y Staple).

Ar ôl cyrraedd y rhestr fer o blith nifer o geisiadau o safon uchel am y wobwr, gwnaeth Lucy a'i chyd-enillydd Perry Parkinson argraff ar banel o feirniaid yn cynnwys yr NSA a chynrychiolwyr o'r diwydiant i gael eu dewis o'r diwedd fel derbynwyr y bwrsariaethau.

Arweiniwyd y panel gan Stephen Fell, cynrychiolydd Staple a bridrwr defaid o Ogledd Swydd Efrog. Yn ymuno ag ef roedd Dr Philip Skuce o Moredun, Edward Adamson o Ranbarth Gogledd Iwerddon yr NSA a Kate Hovers, milfeddyg a Chadeirydd Rhanbarth NSA Cymru/Wales.

Dywedodd Mr Fell: "Mae Cwmni Masnachwyr Staple Lloegr unwaith eto yn falch iawn o fod yn noddi Gwobr Goffa Samuel Wharry yr NSA.

"Dyma gyfle gwych i ddau berson o'n diwydiant defaid i deithio ac ehangu eu meddyliau mewn gwledydd eraill. Bydd y derbynwyr llwyddiannus eleni, Perry a Lucy, y ddau wedi'u cyfnewid yn dda iawn a'u pynciau dewisol, yn sicr yn cynhyrchu adroddiadau o ddiddordeb amserol gwirioneddol."

Rhoddir y gwobrau er cof am Samuel Wharryof Carnlough, County Antrim, a oedd yn Gadeirydd yr NSA pan fu farw'n sydyn ym mis Mai 2017, yn ddim ond 56 oed.

Fel hyrwyddwr gwyddoniaeth a thechnoleg, yn enwedig yn ymwneud â geneteg, rhoddir y bwrsariau hyn er cof am Samuel i sicrhau bod ei frwdfrydedd, ei chwillfrydedd a'i natur ymarferol yn parhau.

Ychwanegodd Prif Weithredwr yr NSA, Phil Stocker: "Mae Gwobr Goffa Samuel Wharry yr NSA yn cynnig cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i ffermwyr defaid ifanc i deithio a darganfod y rhan bwysig y mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn ei chwarae bellach wrth wella'r ddiadell ddefaid byd-eang.

"Mae pawb yn NSA a'r Staple yn gyffrous i fod yn rhan o'u teithiau ac yn dymuno'r gorau iddynt gyda'u hastudiaethau."

Mae Lucy a Perry bellach yn y camau cychwynnol o gynllunio eu teithiau astudio – gyda'r ddau yn gobeithio ymweld â Seland Newydd.

Dywedodd Lucy: "Mae'n ffrainc cael fy newis fel derbynnydd a chynrychioli ffermwyr defaid ifanc y DU. Rwy'n gyffrous i deithio i Seland Newydd ac Awstralia, gobeithio, i weld eu systemau defaid a'm llygaid fy hun, gan ganolbwyntio ar dechnegau gaeafu allan. Rwy'n siŵr y bydd yn rhoi cymhelliant ychwanegol i mi wrth i mi gwblhau fy mlwyddyn olaf ym Mhrifysgol Harper Adams."

Mae Lucy'n gweithio ochr yn ochr â'i theulu ar eu fferm gymysg yng nghanolbarth Cymru, lle maen nhw ar hyn o bryd yn gaeafu'r gaeaf i fridio mamogiaid ac ŵyn ar gnydau porthiant fel rhan o'r cylchdro cnydau.

Bydd myfyriwr Harper Adams yn astudio cynhyrchu defaid yn Seland Newydd ar ôl sicrhau un o Wobrau Coffa Samuel Wharry ar gyfer y Genhedlaeth Nesaf eleni. Roedd Lucy Griffiths, myfyrwrraig blwyddyn olaf BSc (Hons) Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid, o CFFl Llanandras, Maesyfed, yn un o ddau enillydd Gwobr Genedlaethol y Gymdeithas Ddefaid.



Cyrsiau ar eu newydd wedd yn barod ar gyfer ymgeiswyr 2023

Yn galw ar bob peirianydd, entrepreneur ac arloeswr bwyd – mae Prifysgol Harper Adams yn cyflwyno 10 cwrs ar eu newydd wedd ar gyfer mynediad 2023.

Mae cyflogwyr o bob rhan o'r sectorau bwyd-amaeth a'r sectorau ehangach yn edrych yn gynyddol ar Harper Adams i ddod o hyd i dalent y dyfodol sydd â'r sgiliau busnes, y wybodaeth a'r meddylfryd cywir i'w helpu i lwyddo. Mewn ymateb i'r galw hwn, mae'r Brifysgol yn gyffrous i gynnig tair rhaglen fusnes newydd, benodol.

Bydd Rheolaeth Busnes yn siapio graddedigion a all ragori mewn unrhyw fusnes. Bydd Rheolaeth Busnes Amaeth yn arwain y rhai sy'n dymuno gweithio yn y diwydiannau amaethyddol ond sy'n ceisio addysg i'w helpu i yrru eu syniadau busnes ymlaen. A bydd Rheoli Busnes Bwyd yn meithrin talent o gynhyrchu crefftswyr pwrpasol i fanwerthu byd-eang.

I'r rhai sydd am ganolbwyntio'n llawn ar fwyd, mae Gwyddor ac Arloesi Bwyd yn ymdrin ag ystod eang o themâu 'bwyd' gan gynnwys anghenion defnyddwyr, maeth, cynhyrchu bwyd, datblygu cynnyrch newydd, cadwyni cyflenwi at ddulliau marchnata, ymchwil, a datblygu, a materion cynaliadwyedd mewn bwyd. Bydd gan raddedigion y sgiliau ymarferol, damcaniaethol a thechnegol angenrheidiol i helpu i fynd i'r afael â heriau bwyd byd-eang heddiw ac yn y dyfodol.

Mae chwe llwybr peirianeg y Brifysgol wedi'u hadnewyddu'n llawn i gydnabod technolegau, technegau a heriau newidiol y dyfodol. Mae Peirianeg Fecanyddol, Peirianeg Fodur a Pheirianeg Amaethyddol i gyd ar gael naill ai fel BEng pedair blynedd neu MEng pum mlynedd (Meistr integredig), gyda'r olaf yn anelu at osod ymgeiswyr ar y llwybr i ddod yn Beirianwyr Siartredig.

Gall unrhyw un sydd eisiau gwybod mwy am y cyrsiau hyn – a'r ystod eang o gysiau eraill a gynigir gan Harper Adams – ymweld â Diwrnod Agored nesaf y Brifysgol ddydd Sadwrn, Mawrth 10. Dysgwch fwy ac archebwch trwy: <http://harper.ac.uk/yfcod>



Noddir y Cylchlythyr hwn gan Brifysgol Harper Adams



Harper Adams University



Wyt ti'n ffermwr defaid, yn angerddol dros y sector ac yn awyddus i chwarae rhan yn ei ddyfodol?

Enwebiadau ac Etholiadau Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd
Yn British Wool ein prif nod yw sicrhau'r enillion mwyaf posibl i'n haelodau amaethyddol. Mae angen cynrychiolwyr ffermwyr ar ein bwrdd i'n helpu a'ch gwahodd i ystyried gwasanaethu fel ffermwr etholedig yn aelod anweithredol o fwrdd Gwlân Prydain.

Mae'n rôl â thâl, sy'n cynnwys tua 30 diwrnod o waith y flwyddyn i fynychu cyfarfodydd a chynrychioli Gwlân Prydain yn eich rhanbarth.

Rydym yn derbyn enwebiadau gan ymgeiswyr yn Rhanbarthau De'r Alban, Gogledd Cymru a De Lloegr, yn ddibynnol ar y diddordeb, cynhelir etholiadau ym mis Ionawr 2023 a bydd y rhai a benodir yn dal y swydd am dair blynedd, o 1 Ebrill 2023.

Amdanom ni:

Mae British Wool yn eiddo i tua 35,000 o ffermwyr defaid ac yn gweithredu o dan egwyddorion cydweithredol. Rydym yn casglu ac yn graddio gwlân gan bob ffermwr waeth beth fo'i fath, lleoliad, a maint. Yna rydym yn marchnata'r gwlân ar y cyd mewn ffordd dan reolaeth drwy'r flwyddyn i gael y gwerth fwyaf posib. Ochr yn ochr â hyn rydym yn gweithio'n barhaus i ysgogi'r galw am Wlân Prydeinig gan ddefnyddwyr, cynhyrchwyr a manwerthwyr drwy ein cynllun trwyddedu ac ymgyrchoedd hyrwyddo.

Mae bwrdd anweithredol British Wool yn cynnwys naw etholedig rhanbarthol a dau yn aelod annibynnol wedi'u penodi'n gyhoeddus. Mae'r bwrdd yn gyfrifol am lwyddiant Gwlân Prydain, darparu cyfeiriad strategol i'r tîm gweithredol sy'n rheoli'r busnes ac adolygu perfformiad busnes, mentrau busnes mawr a buddsoddiad.

Manylion y rôl:

- Disgwylir i aelodau bwrdd anweithredol weithio tua 30 diwrnod y flwyddyn, mynychu cyfarfodydd bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor perthnasol eraill dros gyfnod o ddau i dri diwrnod bob mis. Mae disgwyl iddyn nhw hefyd gynrychioli Gwlân Prydain yn eu rhanbarth.
- Y tâl blyneddol cyfredol yw £9,218 y flwyddyn. Bydd costau busnes rhesymol hefyd yn cael eu talu.
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cyflwyniad llawn ac yn cael cynnig hyfforddiant perthnasol i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau.
- Ewch i <https://www.britishwool.org.uk/board-members> i gael rhagor o fanylion am y bwrdd, eu haelodau, a'u rolau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Bwrdd, Andy Whelan trwy e-bost: andywhelan@britishwool.org.uk

Proses enwebu

- Rhaid i ymgeiswyr gael eu henwebu'n ysgrifenedig gan 10 aelod cofrestredig Gwlân Prydain o'r rhanbarth maent yn dymuno ei chynrychioli.
- Nid oes angen ffurflen enwebu arbennig, ond gellir lawrlwytho ffurflenni enwebu o <https://www.britishwool.org.uk/become-a-british-wool-board-member>
- Dylai pob enwebydd roi ei gyfeiriad ei hun, llofnod awdurdodedig a rhif aelodaeth.
- Am fanylion y rhanbarthau ewch i: <https://www.britishwool.org.uk/regional-structure>.

Dylai enwebiadau gyrraedd erbyn 6yh dydd Iau 5 Ionawr 2023 fan bellaf drwy e-bost at kamdlay-lewis@britishwool.org.uk neu drwy'r post i: British Wool, Wool House, Sidings Close, Heol y Gamlas, Bradford, BD2 1AZ.

Mae'r erthygl ar y dde wedi'i hysgrifennu gan Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru. Bydd y llyfrau gwaith a'r fideo newydd i blant cynradd ar gael yn y flwyddyn newydd. Gallwch droi at y rhain ac adnoddau eraill trwy'r adran lechyd a Diogelwch ar wefan Cyswllt Ffermio, sef www.llyw.cymru/cyswlltffermio



'Mae ffermydd yn fannau rhyfeddol ond gallant fod yn beryglus hefyd' – bydd fideo a llyfrynau newydd am ddiogelwch ar y fferm yn helpu plant cynradd i adnabod y peryglon!

Mae Partneriaethau Diogelwch Fferm Cymru (WFSP) yn drefniant cydweithio rhwng sefydliadau rhanddeiliaid amaethyddol allweddol sy'n cydweithio er mwyn helpu i leihau nifer annerbyniol y damweiniau difrifol a'r marwolaethau sy'n digwydd ar ffermydd ar draws Cymru bob blwyddyn.



Yn y llun yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd, mae Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru Lesley Griffiths yn lansio ymgyrch diogelwch fferm newydd Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru i helpu gadw plant ifanc yn ddiogel ar ffermydd Cymru. O'r chwith i'r dde: Y cyflwynydd teledu a llysgennad Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru (WFSP) Alun Elidyr, Sabrina Davies o Fferm Brynhydd, Hafwy gyda'i merch 3 oed Tori a ymwelodd â stondin WFSP a llysgennad WFSP Glyn Davies.

Yn ystod y Ffair Aeaf eleni yn Llanelwedd, lansiodd Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths, ymgyrch gyhoeddusrwydd ddwyieithog newydd am ddiogelwch ar y fferm, gan dargedu plant cynradd yng Nghymru.

Cynhyrchwyd fideo fer a dau lyfr gwaith A4 lliwgar ar gyfer plant rhwng pedair a saith oed a rhwng saith ac un-ar-ddeg oed gan Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru (WFSP), sef trefniant cydweithredu rhwng rhai o'r prif sefydliadau rhanddeiliaid gwledig yng Nghymru, a bydd y rhain yn annog y grwpiau oedran hyn i ddysgu am bwysigrwydd diogelwch ar y fferm a diogelu eu hunain rhag rhai o'r peryglon mwyaf cyffredin ar ffermydd.

Mae peryglon cerbydau sy'n symud, cwmpo o uchder, tanciau slyri a mynd yn rhy agos i anifeiliaid yn ychydig o'r meysydd 'risg uchel' a amlygir yn yr ymgyrch newydd, lle y caiff ffeithiau ergydol eu deall yn hawdd trwy gyfrwng y fideo diddorol iawn a llawn gwybodaeth, yn ogystal â'r posau, y chweiloriau a'r cwisiau yn y llyfr gwaith. Bydd pob llyfr gwaith yn cynnwys 'Cynllun argyfwng diogelwch fferm' hefyd, a fydd yn annog plant i eistedd i lawr gydag aelodau hyn o'r teulu i lenwi hwn a'i ddangos mewn man amlwg, a fydd yn ffordd ddyddiol o'u hatgoffa 'sut i gadw'n ddiogel'.

Esboniodd y Gweinidog, a gyflwynwyd gan y cyflwynydd teledu adnabyddus a chennad WFSP, Alun Elidyr, er bod ffermydd yn gallu bod yn ffynhonnell dysgu gwych, gan ysbrydoli a hysbysu plant a phobl ifanc i ddysgu o ble y daw eu bydd ac i barchu anifeiliaid a byd natur, ei bod yn hanfodol eu bod yn ymwybodol o'r peryglon niferus hefyd.


"Mae ffermydd yn fannau hyfryd i fagu plant ac maent yn cynnig profiadau gwych iddynt.

"Fodd bynnag, gall ffermydd fod yn fannau peryglus hefyd, ac mae'n drasig bod damweiniau sy'n cynnwys plant yn digwydd o hyd ar ffermydd yma yng Nghymru, flwyddyn ar ôl blwyddyn – ac mae pob un ohonynt yn drasiedi torcalonnus sy'n gallu distrywio teuluoedd, frindiau a chymunedau gwledig.

"Mae'n hanfodol ein bod oll yn cydweithio i wneud popeth y gallwn i godi ymwybyddiaeth o'r pwnc pwysig hwn ymhlith plant ifanc a'u teuluoedd, felly rydw i'n falch iawn o lansio'r adnoddau newydd pwysig hyn ar gyfer ein plant cynradd," dywedodd y Gweinidog.

Diolchodd Alun Elidyr i'r Gweinidog am gefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru tuag at Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru wrth i'r diwydiant weithio gyda chymunedau, rhanddeiliaid a theuluoedd er mwyn ceisio creu ymwybyddiaeth a lleihau'r ystadegau torcalonnus sy'n dinistrio teuluoedd amaethyddol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

CYSTADLEUAETH CROESAIR



Llenwch y croesair hwn
a'i dychwelyd i gymryd
rhan mewn raffl fawr!



Ar Draws

- 1 - Ym mha Ddinas Ewropeaidd y mae Seminar Astudio 2023?
- 4 - Digwyddiad sy'n symud o gwmpas y Sir, fel arfer ym mis Gorffennaf
- 5 - I ble y teithiodd aelodau ar daith astudio materion gwledig 2022?
- 7 - Pa gyfle sy'n caniatáu i aelodau arddangos eu lloï?
- 8 - Clwb hynaf CFfl Cymru
- 9 - Pa gystadleuaeth pesgi moch a gynhaliwyd yn y Ffair Aeaf?
- 10 - Sawl ffederasiwn sirol sydd yng Nghymru?
- 12 - Ers faint o flynyddoedd mae Menter Ŵyn CFfl Cymru wedi bod yn rhedeg?

I Lawr

- 2 - Tref gwesteïwr Eisteddfod CFfl Cymru 2022
- 3 - Lleoliad Cynhadledd Amaeth 23
- 6 - Cyn-Ddyfarnwr Rygbi Rhyngwladol Cymru sy'n siarad yng nghynhadledd Amaeth 23
- 8 - Pwy oedd enillwyr Eisteddfod 2022
- 11 - Faint o foch gafodd pob aelod o'r gystadleuaeth pesgi mochyn?
- 13 - Cadeirydd CFfl Cymru 2022-23